# Pibell Nwy Pwllheli i Flaenau Ffestiniog

## Archwiliadau archaeolegol a gwblhawyd gan
## Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
## ar gyfer
## Wales & West Utilities




WALES&WEST UTILITIES


Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust


# Cyflwyniad

Yn 2011 ailosododd Wales & West Utilities bibell nwy fawr o Bwllheli i Flaenau Ffestiniog, Gwynedd, Gogledd Cymru. Yn ogystal â bod yn brosiect peirianyddol, roedd yn ofynnol i Wales & West Utilities liniaru unrhyw ddifrod posibl i safleoedd archaeolegol ar hyd llwybr y bibell. Daeth yn brosiect archaeolegol sylweddol felly gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd (YAG) yn cael ei chomisiynu i ymgymryd â'r gwaith archaeolegol. O'r prosiect amlygwyd nifer o dwmpathau llosg yn dyddio o'r cyfnod Neolithig diweddar hyd at y cyfnodau canoloesol cynnar. Cafwyd hyd i gorfflosgiad o'r Oes Efydd; pydewau o Oes yr Haearn; tomen sbwriel cregyn o Oes yr Haearn; sychwr grawn; safle gofannu a sarn canoloesol posibl.

Roedd rhan orllewinol y llwybr yn rhedeg ar hyd tir pantiog a bryniog ysgafn ar ochr ddeheuol Pen Llŷn. Yna daeth y llwybr i mewn i'r mewndir i drwyn gorllewinol Traeth Mawr, sef aber llanwol Afon Glaslyn. Caewyd ceg yr aber yn 1813 gan forglawdd, sef y Cob, er mwyn i'r tir y tu cefn i'r morglawdd gael ei ddraenio a 'i hawlio ar gyfer ei amaethu.

Wedi tref Porthmadog, croesodd y bibell Afon Glaslyn a thros esgair o dir lle saif Penrhyndeudraeth. Syrthiodd y llwybr at orlifdir Afon Dwyryd a dilyn y tir amaethu gwastad a ailhawliwyd, i fyny'r dyffryn heibio Maentwrog. Yma, lle mae'r dyffryn yn culhau fawr lletach na lled nant fechan gosodwyd y bibell tua'r gogledd dros dir tonnog a serth i fyny tuag at Flaenau Ffestiniog, yng nghanol tirlun o fynyddoedd Eryri.



*Map o lwybr y bibell (mewn coch gyda thir dros 200m mewn brown)*

# Methodoleg


Yn ystod y gwaith bu archaeolegwyr YAG yn monitro'r dasg o dynnu uwchbridd ar hyd ymyl llwybr y bibell a'r ffos lle y gosodwyd y bibell. Nodwyd a gwerthuswyd unrhyw nodweddion archaeolegol posibl. Os nodwyd unrhyw rai arwyddocaol cawsant eu cloddio a'u cofnodi'n llawn. Roedd y gwaith cofnodi'n cynnwys ffotograffiaeth, cynlluniau i raddfa a nodiadau trylwyr.




*Monitro tynnu'r uwchbridd*



*Archwiliad cychwynnol o'r archaeoleg posibl*



*Cloddio a chofnodi*

Unwaith y cwblhawyd y gwaith maes cafodd y cofnodion maes a'r creiriau eu hastudio ac ysgrifennwyd adroddiad. Roedd yr astudiaeth ôl-gloddiad yn cynnwys dadansoddiad o weddillion planhigion rhuddedig, pren, arteffactau cerrig a chael dyddiadau radiocarbon.




*Pren wedi ei weithio o dwmpath llosg ger Pentrefelin*


Mae adroddiad llawn wedi ei gynhyrchu gyda disgrifiadau manwl ac adroddiadau arbenigol, sydd ar gael i'w ddarllen yng Nghofnod Amgylchedd Hanesyddol Gwynedd a gellir ei lawrlwytho o wefan YAG (www.heneb.co.uk).


Mae'r creiriau'n cael eu cadw yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Gwynedd ym Mangor a chedwir y cofnodion digidol a phapur gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Aberystwyth.



*Dau o'r ychydig iawn o'r fflint a naddwyd a ddarganfuwyd*

*Graff yn dangos calibrad y dyddiad radiocarbon*





*Darlun o gerigyn a ddefnyddiwyd*

*Samplau o feicromorffoleg pridd*



# Twmpathau Llosg

Twmpath o gerrig wedi llosgi ac wedi eu cracio gan wres yw twmpathau llosg, yn gysylltiedig â phydewau ar gyfer dal dŵr. Mae'r safleoedd hyn yn gyffredin iawn yng ngogledd Cymru ond ychydig iawn ohonynt sydd wedi eu harchwilio'n fanwl yma yn y ganrif hon. Mae gwaith cloddio mewn ardaloedd eraill wedi dangos mai eu pwrpas oedd poethi llawer iawn o ddŵr drwy ollwng cerrig poeth i mewn i bwll o ddŵr. Nid ydym yn sicr pam y defnyddiwyd y dechneg hon i boethi dŵr, er y farn yw y defnyddiwyd y pyllau neu'r pydewau dŵr hyn i goginio, i ymolchi, sawna, lliwio, pannu a gwneud cwrw.



Ychydig iawn o dwmpathau llosg a oedd yn wybyddus ym Mhen Llŷn gan eu bod wedi eu dinistrio gan waith aredig a dim ond mewn gwaith y cloddio y mae posibl dod o hyd iddynt. Ildiodd y prosiect hwn 11 o dwmpathau llosg, neu dwmpathau posibl, llawer iawn ohonynt yn ardal Pentrefelin. Y farn yw bod y twmpathau hyn yn perthyn i gyfnod yr Oes Efydd (2000-800CC), ond gan mai prin iawn yw'r creiriau a ddaw o'r safleoedd hyn mae angen cael cymorth dyddiadau radiocarbon. Wrth i ragor o safleoedd gael eu dyddio mae'n amlwg bellach bod y safleoedd hyn wedi eu defnyddio dros gyfnod hir iawn o amser.

Cwblhawyd rhaglen gynhwysfawr ar y twmpathau a ganfuwyd yn ystod y prosiect hwn, a daeth yn amlwg bod llawer yn perthyn i ddiwedd yr Oes Neolithig, tua 2500 CC. Defnyddiwyd un yng nghanol yr Oes Efydd tua 1550 CC, ond y syndod mwyaf oedd un safle ger Pentrefelin a oedd yn dyddio o'r 7fed ganrif OC. Mae twmpathau llosg o gyfnod cynnar y canoloesoedd/ yr Oesoedd Tywyll yn brin iawn (neu heb eu dyddio o'r cyfnod hwn o leiaf) felly mae'r enghraifft hon yn rhyfeddol sy'n dangos bod y traddodiad hwn wedi goroesi dros filoedd o flynyddoedd.


*Twmpath llosg a amlygwyd ger Pentrefelin (ar y dde) gyda'r pydew a gloddiwyd oddi tano i'w weld ar frig y llun. Mae'r safle wedi ei ddyddio i'r 7fed ganrif OC ond mae'n ymddangos union fel twmpathau'r cyfnod Neolithig diweddar a'r Oes Efydd.*



Gerllaw Pentrefelin roedd ardal fawr wedi ei gorchuddio gan gerrig llosg. O dan y cyfan roedd nifer fawr o bydewau. Roedd y rhan helaeth ohonynt yn bydewau crynion a dyllwyd i mewn i'r clai ond roedd un yn gafn petryal a oedd wedi ei leinio â phren o bosibl. Y farn yw bod yr holl bydewau wedi dal dŵr i'w boethi wrth ychwanegu cerrig poeth. Canfuwyd dwy gwli fas a ddefnyddiwyd i gario'r dŵr dros y safle. Fel nifer fawr o dwmpathau llosg roedd y safle hwn yn agos iawn at afon fechan sef ffynhonnell y dŵr ar gyfer y pydewau.

Casglwyd y pren fel tanwydd ar gyfer y safle gerllaw ac mae'n cynnwys y coed gwern a gafodd ei adael i sychu mae'n debyg er mwyn iddo losgi'n well.

Defnyddiwyd y safle yn ystod cyfnod diweddar y Neolithig, cyn 2500 CC hyd at gyfnod cynnar yr Oes Efydd tua 1900 CC. Mae'n debyg y defnyddiwyd y safle am gyfnodau byr, pob un yn gysylltiedig â thyllu pydew a'i ddefnyddio. Ymddengys y cafodd y safle ei gadael am ganrifoedd ac yna'i defnyddio eto tua 900 CC pan ddefnyddiwyd y cafn petryal.




*Safle ger Pentrefelin a ddefnyddiwyd droeon ar gyfer twmpathau llosg. Mae'r llwyd yn cynrychioli gwasgar o dwmpathau llosg, sy'n gorchuddio sianelau naturiol (llinellau llwyd toredig); a draeniau (llinellau du toredig) a redai drwy'r safle.*





*David Chapman o Ancient Arts yn ail-greu sut y bragwyd cwrw efallai mewn cafn twmpath llosg.*

Nid yw'n amlwg eto beth oedd pwrpas y twmpathau llosg. Yn sicr byddai llawer iawn o ddŵr wedi cael ei boethi a'i gadw ar y berw am beth amser mae'n debyg. Un awgrym yw y cafodd bwyd ei goginio yn y pydewau, ond prin iawn yw'r esgyrn neu sbwriel ar yr ochrau. Awgrymwyd ymolchi, golchi dillad neu bannu defnydd ond mae'n debyg na fyddai'r dŵr wedi bod yn lân iawn. Yn ddiweddar iawn awgrymwyd y broses o wneud cwrw ac arbrofwyd hyn gan archaeolegwyr arbrofol.

# Dadansoddi Paill

Tynnwyd colofn o fawn o’r gors wrth ymyl y twmpath llosg ym Mhentrefelin. Nid yw gronynnau paill yn pydru mewn mawn gan roi syniad i ni o lystyfiant y gorffennol yn y llecyn hwnnw. Wrth astudio’r rhywogaethau a ganfyddir mewn gwahanol haenau o’r mawn mae’n bosibl sylwi sut y newidiodd y llystyfiant dros amser. Mae gronynnau paill pob rhywogaeth yn cael eu cyfrif a’r data’n cael ei gyflwyno mewn diagram paill (isod).


*Diagram paill o Bentrefelin*




Mae’n debyg bod rhan gynharaf o’r cofnod yn perthyn i gyfnod diweddar y Neolithig pan ddefnyddiwyd y twmpath llosg a gwelir tirwedd goediog yn bennaf, gyda choetir corsiog llawn gwern ar hyd y nant gerllaw, a chymysgedd o goetir collddail yn tyfu dros yr ardal ehangach. Dros y mileniwm nesaf cafwyd ambell gyfnod o glirio coetiroedd. Nid oedd y clirio’n sylweddol, yn aml er mwyn creu caeau i dyfu grawnfwydydd a thir pori. Aildyfodd y coetiroedd wedi’r cyfnodau byr hyn.


Erbyn Oes yr Haearn daeth clirio coetiroedd yn fwy eang a pharhaol ac roedd grawnfwydydd yn cael eu tyfu mewn caeau yn yr ardal. O’r cyfnod hwn roedd y rhan fwyaf o’r dirwedd yn laswelltir a thyfu bwydydd yn hytrach na choetiroedd ac mae presenoldeb paill grug yn dystiolaeth bod gweundiroedd yn ehangu yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

Mae rhan uchaf y diagram paill yn dangos y bu ehangiad pellach o laswelltiroedd a rhostiroedd, nes achosi i goetiroedd oroesi mewn mannau ynysig yn unig, mewn cloddiau ac wrth ymyl nentydd ac roedd y dirwedd hon yn debyg iawn i fel y mae heddiw. Mae peth o’r paill pîn yn dangos bod coed tramor wedi eu cyflwyno mewn planhigfeydd o’r ddeunawfed ganrif ymlaen.









*Gronynnau paill o dan ficrosgop (o’r chwith: pisgwydden, gwernen, collen, glaswellt)*
*(Adran Ddaearyddiaeth, Royal Holloway College)*


 Hawlfraint Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd


# Corfflosgiad o'r Oes Efydd

Darganfuwyd dau bydew bach mewn cae i'r de o Lanystumdwy. Roedd y rhain yn cynnwys darnau o esgyrn wedi llosgi, sef rhai dynol. Dyma ddarnau o esgyrn oedolyn a oedd wedi ei gorfflosgi. Roedd un pydew yn cynnwys y rhan helaeth o'r esgyrn ac mae'n debyg mai dyma weddillion y corfflosgiad tra roedd y pydew arall yn cynnwys rhai darnau o'r tân a losgodd y corff.

O'r golosg a gasglwyd gwelwyd mai derw yn unig, a rhuddin y pren hwnnw, a ddefnyddiwyd fel tanwydd. O'r dyddiadau radiocarbon o'r esgyrn a losgwyd cafwyd dyddiad o tua 1500-1400 BC, sef yr Oes Efydd Ganol. Mae'r rhan fwyaf o'r beddau o'r cyfnod hwn mewn wrnau crochenwaith neu feddau wedi eu leinio â cherrig a elwir yn gistfeddau, ond nid oedd unrhyw arwydd bod y mathau hyn o feddau yn bodoli ar y safle nac ychwaith bod y bedd wedi ei ddynodi gan dwmpath.

Tua 2.5km i'r dwyrain, ger Afon Wen, cloddiwyd safle corfflosgiad Oes Efydd arall yn 2007. Ar y safle hwnnw roedd dau gorfflosgiad mewn wrnau o fewn lloc ffosog crwn. Rhoddwyd dyddiad ychydig yn gynharach i'r safle hwn o'i gymharu â safle'r Bibell Nwy, sef 1800-1500 CC, ond fe allent gynrychioli gwahanol feddau o wahanol statws gan yr un gymuned Oes Efydd yn byw yn yr ardal.





*Uchod: safle'r bedd corfflosgiad (dot du) (llinell doredig ddu = llwybr y bibell) (©Hawlfraint y Goron Arolwg Ordnans. Cedwir pob hawl).*
*Chwith: cynllun o'r ddau bydew bach yn cynnwys y bedd corfflos-giad a gweddillion y tân*

# Pydewau Oes yr Haearn a Sychwr Grawn Canoloesol

Ger fferm Glan Morfa, i'r gorllewin o Barc Gwyliau Hafan y Môr, darganfuwyd dau bydew gyda nodwedd ffurf hir a oedd yn weddillion sychwr ŷd. Er bod y pydewau a'r sychwr wrth ymyl ei gilydd profodd y dyddiadau radiocarbon bod y pydewau'n perthyn i'r Oes yr Haearn (tua 400-350 BC) a'r sychwr ŷd i'r cyfnod canoloesol (a ddefnyddiwyd rhyw dro rhwng cyfnod diweddar y 12fed ganrif a chyfnod cynnar y 13eg ganrif).








Roedd y pydewau'n llawn o gerrig wedi eu cracio gan effaith gwres ac wedi eu defnyddio fel poptai mae'n debyg. Ni chanfuwyd unrhyw olion eraill o anheddiad yn yr ardal ond mae'n debygol y bu anheddiad o Oes yr Haearn yma gerllaw yn rhywle.

*Uchod: cynllun o'r pydewau a'r sychwr ŷd*

*Chwith: pydew gyda cherrig wedi eu cracio gan effaith gwres.*




Roedd y creiriau o'r pydewau'n cynnwys braeanau a cherrig rhwbio ar gyfer malu grawn. Byddai'r cerrig rhwbio (carreg gron a afaelwyd ynddi) yn rhwbio a malu'r grawn dros wyneb y freuan fwy i greu blawd. Dros amser byddai hyn yn creu wyneb wedi gwisgo rhwng y ddwy garreg. Torrwyd y cerrig hyn gan wres y tân a byddant wedi cael eu defnyddio mewn anheddiad cyfagos.




Leiniwyd y sychwr ŷd gyda cherrig a oedd yn dangos olion cael eu poethi gan fod tân wedi ei gynnau are un pen. Byddai gwres wedi symud ar hyd y ffliw a oedd hefyd wedi ei leinio â cherrig, i mewn i'r siambr ar y pen arall a gosodwyd canghennau drosto. Yna byddai lliain wedi ei osod ar ben y canghennau i ddal y grawn i'w sychu. Dangosodd y grawn llosg a ganfuwyd yn y samplau pridd mai ceirch a sychwyd gan amlaf. Yn aml, cynaeafwyd y ceirch cyn iddynt aeddfedu'n llawn ac roedd angen eu sychu cyn eu malu i greu blawd. Mewn melinau yng Nghymru, hyd at ganol yr 20fed ganrif sychwyd yr ŷd cyn malu ond defnyddiwyd adeiladau arbennig gyda lloriau o deils tyllog. Roedd y rhan fwyaf o'r sychwyr ŷd canoloesol fel yr un hwn, wedi eu tyllu i mewn i'r ddaear mewn cornel cae neu yn agos i'r fferm.



*Sychwr ŷd yn ystod y gwaith cloddio yn dangos y leinio cerrig.*

# Tomen Sbwriel Cregyn o Oes yr Haearn

Pan ddarganfyddir tomenni o gregyn môr wedi eu taflu, tybir fel arfer eu bod yn perthyn i'r cyfnod Mesolithig (tua 9000 i 4000 CC), pan roedd pobl yng Nghymru'n byw drwy hela anifeiliaid a chasglu planhigion a chregyn y môr. Serch hynny, trwy'r oesoedd byddai cregyn wedi cael eu defnyddio fel bwyd neu abwyd a gall dyddio radiocarbon ddangos bod y gwaith o gasglu cregyn wedi digwydd mewn cyfnodau eraill. Darganfuwyd tomen sbwriel ger Penamser, i'r de orllewin o Dremadog, yn 3m o hyd yn unig ond yn cynnwys cyfran uchel o gregyn môr. Cocos oedd y rhan fwyaf ohonynt, ond gwelwyd gwichiaid (a rhai bras), ac wystrys (a chafodd bron i 6kg o gregyn eu hidlo o sampl pridd 28 litr). Roedd y cregyn hyn wedi eu gosod yn erbyn darn o greigwely yn ymwthio o'r ddaear, ac roedd y dyddodion naturiol oddi tanodd yn goch o effaith llosgi.

Dyma safle prosesu lle cafodd y cregyn eu berwi mae'n debyg. Roedd wedi ei leoli ar ymyl hen aber Traeth Mawr, ond roedd y gweddillion planhigion a'r malwod tir a ganfuwyd mewn samplau pridd yn awgrymu bod y safle mewn coetir.

Cafodd sampl golosg a chragen gocos o'r gweddillion eu dyddio drwy ddulliau radiocarbon, gan ddangos bod y domen wedi cael ei defnyddio yn ystod cyfnod canol Oes yr Haearn, tua 600-300 CC. Darganfuwyd tomen sbwriel o gregyn o gyfnod y canoloesoedd yn ddiweddar ym Minffordd ac mae'r safleoedd hyn yn dangos, hyd yn oed pan mai amaethyddiaeth oedd y brif ffordd o fyw, roedd cregyn a physgod yn parhau i fod yn rhan o'r deiet, yn union fel heddiw.






*Tomen sbwriel o gregyn wedi ei gosod yn erbyn darn o greigwely yn ymwthio o'r ddaear*

# Gefail Ganoloesol

Ychydig i'r de o'r A497 lle ceir cyffordd gyda ffordd Chwilog (B4354) darganfuwyd dau bydew. Roedd un yn mesur 2.1m wrth 1.4m ac yn 0.4m o ddyfnder., ond roedd y llall o ffurf afreolaidd ac 0.1m o ddyfnder yn unig. Serch hynny, roedd y pydew hwn llawn golosg a gweddillion gwaith metel gan gynnwys miloedd o ddarnau o wastraff o'r morthwyl, a gynhyrchir pan mae haearn yn cael ei weithio mewn gefail. Ymddengys felly bod y pydew bas yn weddillion pitw iawn o waelod gefail a bod cysylltiad rhyngdddo â'r pydew cyfagos. Derw oedd yr holl olosg a gafwyd o'r sampl pridd, gyda'r rhan helaeth ohono'n dod o ruddin y pren. Dyma fyddai'r pren gorau ar gyfer gwneud golosg, yn angenrheidiol ar gyfer creu tân poeth yn hawdd i'w reoli mewn gefail.

Dangosodd dyddiadau radiocarbon y defnyddiwyd yr efail yn ystod cyfnod diweddar y 12fed ganrif neu'n gynnar yn y 13eg OC. Nid yw'r safle'n bell iawn o gylchfur Tomen Fawr, cartref Arglwydd Eifionydd yn y 12fed ganrif mae'n debyg. Hen Efail oedd yr enw a roddwyd ar y rhan hon o'r drefgordd mewn dogfennau o'r canoloesoedd, ac mae tŷ gerllaw yno heddiw gyda'r un enw. Byddai'r safle wedi bod wrth ymyl y brif ffordd ganoloesol ac yn ddelfrydol ar gyfer cyflenwi anghenion Arglwydd Eifionydd a'r deunydd masnachol a oedd yn mynd heibio, gan gynnwys y pererinion yn teithio i Ynys Enlli.








*Uchod: safle'r efail (dot du) a welir ar fap 1889 (llinell doredig ddu = llwybr y bibell, llinell doredig lwyd = llwybr yr A497).*
*Chwith: cynllun o'r pydew gefail a'r pydew mwy cyfagos*



# Sarn Ganoloesol

Darganfuwyd haen o bren a changhennau o dan tua 1m o ddyddodion afon ychydig i'r gogledd o Faentwrog. Roedd llawer iawn o'r pren wedi ei weithio. Roedd canghennau wedi eu torri a phreniau mwy wedi eu hollti, nifer ohonynt yn dangos marciau gan offer. Mae dwyster y cynnwys a'r presenoldeb o ddarnau llai o bren yn awgrymu na chafodd y deunydd hwn ei olchi i lawr yr afon ond yn hytrach yn ei le i raddau a gallai gynrychioli gweddillion adeilad pren. Ni lwyddwyd i ddyddio'r pren drwy ddulliau dendrocronoleg felly cafodd dau ddarn o risgl eu dyddio'n ôl dulliau radiocarbon a chanfuwyd bod yr adeilad posibl yn dyddio o'r ail hanner y 14eg ganrif OC. Mae'n debygol mai gweddillion sarn oedd yma ar draws y gorlifdir yn arwain at bont dros yr afon. Ymgyrch filwrol allai fod y rheswm fwyaf tebygol dros adeiladu sarn a phont ond mae'r dyddiad a gafwyd yn rhy ddiweddar ar gyfer concwest Edward I dros Gymru ac yn rhy gynnar ar gyfer rhyfeloedd Owain Glyndŵr. Mae'n bosibl bod cysylltiad rhwng y sarn a rheolaeth gyffredinol o'r wlad gan y Saeson, neu ei fod yn waith ailadeiladu strwythur a osodwyd yn wreiddiol gan Dywysogion Gwynedd.




*Lleoliad sarn posibl (dot du) ar fap 1889 (llinell doredig = llinell y bibell)*

*Enghreifftiau o bren wedi ei weithio o'r safle (uchod ac i'r dde)*



# Tirwedd Newidiol

Yn ystod y gwaith cloddio casglwyd samplau o bridd o nodweddion archaeolegol a chafodd y rhain eu hidlo’n ofalus mewn tanc arnofiant i gasglu hyd yn oed yr olion lleiaf o olion planhigion a losgwyd. Rhoddodd hyn dystiolaeth ynglŷn â llystyfiant a’r defnydd ohono yng ngwahanol gyfnodau’r gorffennol.

Awgrymodd y golosg pren o’r twmpathau llosg nad oedd dethol penodol o bren tanwydd. Defnyddiwyd y pren mwyaf cyfleus gan gynnwys coed gwern sydd nid yn cael ei ystyried yn danwydd da fel rheol. Serch hynny, os gadewir coed gwern i sychu mae’n llawer iawn mwy effeithiol fel tanwydd ac ymddengys bod pobl cyfnod diweddar y Neolithig wedi cynllunio ymlaen llaw a thorri eu coed yn ddigon cynnar er mwyn ei adael i sychu. Ceir tyllau pryfetach yn y coed sydd ond yn digwydd pan adewir pren ar y ddaear am gyfnod sylweddol wedi ei dorri.

O olion yr efail, gwelwyd bod golosg yn cael ei gynhyrchu o goetiroedd derw yn ystod y cyfnod canoloesol a byddai’r rhain wedi eu rheoli’n ofalus er mwyn cynhyrchu digon o olosg effeithiol. Mae’n bosibl y rheolwyd coetiroedd derw yn ystod yr Oes Efydd hefyd gan fod y corfflosgiad yn dangos mai derw yn unig a ddefnyddiwyd fel tanwydd i’r tân a byddai wedi bod yn angenrheidiol cael digon o bren o’r math cywir i greu’r goelcerth.




Mae gweddillion planhigion eraill yn goroesi os ydynt wedi eu llosgi. Mae gweddillion grawnfwydydd yn dangos y tyfwyd gwenith emer (math cyntefig) yn ystod Oes yr Haearn a daeth ceirch yn fwy cyffredin yn y canoloesoedd. Gall hadau chwyn roi argraff o’r math o dir y tyfwyd grawnfwydydd ynddo a’r drefn ffermio. Roedd y pydewau o Oes yr Haearn yn cynnwys hadau’n dangos y defnyddiwyd tir sych a gwlyb ar gyfer tyfu grawnfwydydd ac y plannwyd y cnydau yn y gwanwyn mae’n debyg.

*Dail derw (uchod)*

*Ceirch (isod)*
*(lluniau cyhoeddus gan Pixabay)*



O dystiolaeth hadau chwyn wedi llosgi, awgrymir y plannwyd ceirch yn y gwanwyn yn ystod y cyfnod canoloesol ond tyfwyd peth haidd a gwenith hefyd ac awgryma chwyn gwahanol mai yn yr hydref y plannwyd y rhain.




O ganlyniad i'r gwaith archaeolegol hwn a ariannwyd gan Wales & West Utilities, llwyddwyd, yn ogystal â gwella'r seilwaith nwy, i ddysgu rhagor am ein gorffennol.

WALES&WEST UTILITIES



# Cydnabyddiaethau

Ariannwyd yr holl waith yn y prosiect hwn gan Wales & West Utilities. Goruchwyliwyd y prosiect gan RSK Environment Ltd, a'i reoli ar safle gan Ken Owen a goruchwyliwyd y gwaith cloddio ym Mhentrefelin gan Andrew Shobbrook. Hoffai YAG ddiolch i Ken a'i dîm o archaeolegwyr am eu gwaith ymroddgar. Hoffai YAG gydnabod hefyd yr arweiniad a'r cymorth a gafwyd gan Ashley Batten, Gwasanaethau Cynllunio Archaeolegol Gwynedd a John G Roberts, archaeolegydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Hoffai YAG gydnabod y cyfraniad a wnaed gan yr arbenigwyr; Martin R Bates, Ysgol Archaeoleg, Hanes ac Anthropoleg, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (cerrig llosg); Jon Goodwin, Archaeoleg Stoke-on-Trent (crochenwaith a chreiriau metel); Fiona Grant, Gwasanaethau Ardea Palaeoamgylcheddol ac Archaeolegol (dadansoddi paill); Gordon Cook a Derek Hamilton, Labordy Radiocarbon SUERC (mesur a dadansoddiad ystadegol radiocarbon); David Jenkins (dadansoddiad petrolegol); Tim Young, GeoArch (olion archaeofeteleg); James Rackham (esgyrn anifeiliaid); Jacqueline McKinley, Archaeoleg Wessex (esgyrn dynol a gorfflosgwyd); George Smith (gwaith litheg a chreiriau cerrig), James Rackham, John A. Giorgi, Danna Challinor, Ymgynghoriaeth Archaeoleg Amgylcheddol (prosesu ac astudio gweddillion golosg a phlanhigion llosg), a Nigel Nayling a Roderick Bale, Gwasanaethau Archaeolegol Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan (dadansoddi a chofnodi pren); Dr Richard I Macphail, Sefydliad Archaeoleg, UCL (micromorffoleg pridd). Mae'r holl adroddiadau manwl gan arbenigwyr ar gael i'w lawrlwytho o wefan YAG (www.heneb.co.uk).

Ysgrifennwyd yr adroddiad gan Jane Kenney o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd.
Hawlfraint Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yw'r lluniau oni nodir yn wahanol.

# Rhagor o Ddarllen

Mae'r adroddiad llawn o'r gwaith cloddio ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth (www.heneb.co.uk), i'w lawrlwytho fel ffeil pdf. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn Archaeology in Wales, cyfnodolyn Cyngor Archaeoleg Brydeinig (Cymru). Mae gwaith archaeolegol arall yn y maes hwn yn cynnwys gwaith o flaen gwaith gwella'r A497 rhwng Abererch a Chwilog a chyn adeiladu ffordd osgoi Tremadog a Minffordd. Mae'r ddau wedi eu cyhoeddi yn Archaeology in Wales, y naill yn 2007 (rhif 47) a'r llall yn y gyfrol ddiweddaraf (2013).

Gwynedd Archaeological Trust
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd. LL57 2RT
Ffon: 01248 352535. Ffacs: 01248 370925. email:gat@heneb.co.uk